Rheolaeth

MEDDYLIWCH AMDANI

Hyd 2006

Bydd Cyngor Rheolaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru a thu hwnt i hybu gwell perfformiad o ran rheoli ar bob lefel yn yr economi.

Fel rhan o'r dasg honno, rydym yn annog rheolwyr fel chi i ystyried sut gallan nhw ehangu eu galluoedd eu hunain a gwella yn eu gwaith.

Nod y daflen grynodeb yma, a fydd yn cael ei chyhoeddi bob mis, yw'ch helpu chi i ganolbwyntio yn fwy eglur ar yr heriau ymarferol sy'n eich wynebu.

Nid ydym yn honni bod yr holl atebion gennym, ond rydym yn gobeithio y bydd y cwestiynau yma'n ysgogi ystyriaeth a fydd yn ddefnyddiol i chi. Os ydych chi am roi'ch barn ar unrhyw rai o'r materion sy'n cael eu codi, cysylltwch â ni.

gwyneth.stroud
@crc-wmc.org.uk

Beth yw arwyddocâd Teitl?

Mae'r awdur busnes, Nigel Rees, yn dwyn sylw mewn cyhoeddiad newydd at y dryswch mae'r hyn mae'n ei ddisgrifio fel "cyfoethogi teitlau swyddi" yn ei achosi. Defnyddiodd enghraifft o siop Safeway, lle mae'r staciwr silffoedd yn cael ei alw yn "weithiwr ailgyflenwi amgylchol".

Ydy teitlau swyddi yn eglur yn eich tîm chi? Ydyn nhw'n disgrifio'r hyn y bydd pob unigolyn yn ei wneud ac yn egluro lefelau hynafedd a llinellau cyfrifoldeb? Ynteu ydyn nhw'n creu niwl o ddryswch, eiddigedd, ansicrwydd ac, mewn ambell achos, gwrthdaro rhwng cydweithwyr?

Lle i wella?

Darganfu ymchwil newydd y Sefydliad Rheolaeth Siartredig fod 44% o reolwyr Cymru yn aml yn edrych yn ôl ac yn difaru na wnaethon nhw ddatblygu mwy o sgiliau. Hefyd, 47% yn unig oedd o'r farn eu bod nhw'n defnyddio'r sgiliau roedden nhw eisoes wedi'u hennill i'r eithaf.

Ydych chi o'r farn eich bod chi eich hunan, neu reolwyr yn eich sefydliad, yn ennill y sgiliau priodol ac yn cyflawni'ch gwir botensial? Ynteu ydych chi'n rhannu'r diffyg cyflawniad sy'n dod i'r amlwg yn yr arolwg hwn? Sut allwch chi asesu hyn yn wrthrychol, a phe byddech chi'n methu, sut allech chi ddechrau ei gywiro yfory?

Yn amryddawn ynteu'n dda am ddirprwyo?

Esboniodd Howard Lester, sef cadeirydd Williams-Sonoma, y cwmni archebu drwy'r post enfawr, yn ei gyfraniad fideo ar-lein i'r gyfres '50 Lessons' fod galluoedd pobl eraill yn ei dîm rheoli yn llawer gwell mewn meysydd allweddol o fusnes y cwmni na fyddai ei alluoedd ef fyth. Dywed ei fod wedi dysgu canolbwyntio'n gryf ar yr hyn allai wneud orau a dod o hyd i eraill i weithio yn y meysydd lle roedd ganddo ef wendidau.

Fyddwch chi weithiau'n cwympo i'r fagl o gredu y dylech chi, fel y pennaeth, fod yn fwy amryddan nag unrhyw un arall yn y sefydliad? Fyddwch chi'n ei chael hi'n anodd cydnabod bod aelodau o'ch staff yn well na chi mewn rhai meysydd hanfodol penodol o'ch busnes? Fyddwch chi'n rhoi rhwydd hynt iddyn nhw ddefnyddio'u doniau ynteu fyddwch chi'n cystadlu â nhw'n isymwybodol?

Rheswm ynteu cywirdeb gwleidyddol?

Mae'r Fforwm Cyflogwyr ar Oedran yn credu y gallai honiadau dan ddeddfwriaeth newydd gwahaniaethu ar sail oed gostio £193m i fusnesau yn ystod y flwyddyn nesaf. Awgryma hyn y gallai rhai cwmnïau fod yn llai diwyd nag eraill wrth gadw at lythyren y ddeddf ac ysbryd y rheolau newydd.

A chymryd bod poblogaeth y DU erbyn hyn yn cynnwys mwy o unigolion 55-64 oed nag o unigolion 16-24 oed, ydych chi'n ystyried bod y rheolau newydd sy'n ymwneud ag oedran yn gam ymarferol fydd o fudd i fusnes yn y pen draw ynteu yn ddarn dianghenraid a rhwystrol o gywirdeb gwleidyddol?

Addasu ynteu gwrthryfela?

Dywedodd George Bernard Shaw "Bydd dyn rhesymol yn ceisio addasu ei hun ar gyfer y byd. Bydd y dyn afresymol yn dyfalbarhau wrth geisio addasu'r byd i'w hunan. Felly, ni fydd unrhyw gynnydd heb y dyn afresymol."

Pa mor rhesymol ydych chi fel rheolwr? Fyddwch chi'n canolbwyntio ar wneud elw drwy addasu eich hunan i'r sefyllfa sydd ohoni yn eich sefydliad, eich marchnad neu'r adnoddau a'r dechnoleg sydd ar gael ichi? Ar y llaw arall, fyddwch chi'n gwrthryfela yn erbyn yr amgylchedd y byddwch chi'n canfod eich hunan neu'ch busnes ynddo, ac yn ceisio gorfodi newid a allai naill ai wneud pethau'n

Gwerth eu darllen

Y pum llyfr busnes ar y brig y mis hwn yw: – Freakonomics gan Steven Levitt; How to Get Rich gan Felix Dennis; The Undercover Economist gan Tim Harford; The English Legal System gan Jacqueline Martin a Taming the Lion gan Richard Farleigh. Oes rhai ohonoch chi wedi darllen rhai o'r llyfrau hyn? Beth yw'ch barn chi? Efallai bod gennych chi eich ffefryn penodol? Os felly, hoffem glywed gennych.

Cyngor Rheolaeth Cymru
Wales Management Council